Beibl i Blant
yn cyflwyno

Y Wraig wrth y Ffynnon

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Lazarus

addaswyd gan: Ruth Klassen

Cyfieithydd: Catrin Roberts

Alastair Paterson

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2020 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Iesu a'i ddisgyblion yn teithio trwy ardal Samaria. Daethant i bentref o'r enw Sychar.



Roedd ffynnon yno, a byddai pobl Sychar yn tynnu dŵr o'r ffynnon i'w yfed. Jacob, tad yr Israeliaid, oedd wedi cloddio'r ffynnon amser maith yn ôl.



Mae'n siŵr ei bod hi'n heulog ac yn boeth yn gynnar yn y prynhawn. Eisteddodd Iesu wrth y ffynnon ac aeth ei ddisgyblion i Sychar i brynu bwyd.

Roedd Iesu ar ei ben ei hun – ond cyn hir daeth gwraig oedd yn byw yn Sychar i dynnu dŵr o'r ffynnon.
"Rho ddiod i mi", gofynnodd Iesu.

Cafodd y wraig sioc. "Iddew wyt ti," meddai'r wraig, "Sut alli di ofyn i mi am ddiod? Dw i'n wraig o Samaria." Doedd Iddewon ddim yn cymysgu o gwbl gyda phobl Samaria bryd hynny!

Mae'n debyg iddi gael mwy o sioc pan ddywedodd Iesu, "Taset ti ond yn gwybod pwy ydw i, ti fyddai'n gofyn wedyn i mi roi dŵr bywiol i ti."

Dywedodd y wraig wrth Iesu, "Does gen ti ddim bwced i godi dŵr ac mae'r pydew yn ddwfn. Wyt ti'n meddwl dy fod di'n fwy na'n tad ni, Jacob? Jacob roddodd y pydew i ni."



"Bydd syched eto ar bawb sy'n yfed y dŵr yma, ond fydd dim syched byth ar y rhai sy'n yfed y dŵr dw i'n ei roi. Yn wir, bydd y dŵr dw i'n ei roi yn troi'n ffynnon o ddŵr y tu mewn iddyn nhw, ...

... fel ffrwd yn llifo i fywyd tragwyddol," meddai Iesu wrth y wraig. Meddai'r wraig wrtho, "Syr, rho beth o'r dŵr hwnnw i mi!"

Dwedodd Iesu wrthi, "Dos i nôl dy ŵr." "Does gen i ddim gŵr," meddai'r wraig. "Does gen ti ddim gŵr. Y gwir ydy dy fod wedi cael pump o wŷr, a dwyt ti ddim yn briod â'r dyn sy'n byw gyda ti nawr," dywedodd Iesu.

Sylweddolodd y wraig fod Iesu yn broffwyd. Roedd hi am ddechrau dadl- oedd pobl i fod i addoli yn Jerwsalem neu ar fynydd fel y Samariaid.



Dywedodd Iesu bod addolwyr go iawn yn addoli Duw mewn ysbryd ac mewn gwirionedd.



Meddai'r wraig, "Dw i'n gwybod fod y Meseia yn dod. Pan ddaw, bydd yn esbonio popeth i ni." "Fi ydy e," meddai Iesu wrthi, "yr un sy'n siarad â ti." Dyna pryd daeth ei ddisgyblion yn ôl. Dyma'r wraig yn gadael ei photyn dŵr, drud a mynd yn ôl i'r pentref.



Dwedodd wrth bobl Sychar, "Dewch i weld dyn oedd yn gwybod popeth amdana i. Allai e fod y Meseia tybed?" Felly dyma'r bobl yn mynd allan o'r pentref i gyfarfod Iesu.

Tra bod hyn yn digwydd, roedd disgyblion Iesu wedi bod yn ceisio ei gael i fwyta rhywbeth.

Ond dywedodd Iesu: “Gwneud beth mae Duw'n ddweud ydy fy mwyd i,” meddai Iesu, “a gorffen y gwaith”.

Gwaith Iesu oedd arwain pobl at Dduw.

Roedd nifer o Samariaid y pentref wedi credu yn Iesu achos beth ddywedodd y wraig. Dyma nhw'n gofyn i Iesu aros gyda nhw; ac arhosodd yno am ddau ddiwrnod.



Daeth llawer iawn mwy o bobl i gredu ar ôl clywed Iesu'n siarad.



A dyma nhw'n dweud "... Dŷn ni'n credu bellach am ein bod ni wedi ei glywed ein hunain. Yn reit siŵr, hwn ydy'r Meseia, Achubwr y byd."



Y Wraig wrth y Ffynnon

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Ioan 4

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16